Deunydd ategol addysg ariannol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru

Gwasanaeth Arian a Phensiynau | Money & Pensions Service

Rhagair

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle unigryw i ni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig o fewn ein system addysg; i feddwl am sut rydym yn codi safonau mewn ysgolion, sut rydym yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli, ac yn y pen draw, sut rydym yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i ddyheu â phwrpas, er mwyn cyflawni nawr ac yn y dyfodol.

Mae llythrennedd ariannol yn rhan hanfodol o'n system addysg ac yn rhywbeth sy'n wirioneddol bwysig i les cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n cefnogi ein dysgwyr i ddod yn oedolion gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen i ymgymryd â heriau bywyd.

I wneud hyn, mae angen cyfleoedd parhaus ar ddysgwyr i ddatblygu'r sgiliau hynny a'u cymhwyso mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau. Mae hyn yn cynnwys yng nghyd-destun addysg ariannol, cyfleoedd entrepreneuraidd a gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith. Dyna pam mae llythrennedd ariannol yn elfen hollbwysig o fewn y Meysydd Dysgu Mathemateg a Rhifedd ac Iechyd a Lles ac wedi'i ymgorffori fel sgil trawsgwricwlaidd.

Mae'r deunyddiau ategol hyn yn gyfeirlyfr gwych i ysgolion a byddant yn cynnig canllaw trylwyr iddynt ar gyfer dylunio a mireinio eu darpariaeth addysg ariannol.

Mae'r astudiaethau achos yn y deunyddiau ategol hyn yn amlygu'r ddarpariaeth addysg ariannol o ansawdd uchel sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar i'r ysgolion a'r partneriaid allanol hynny a gyfrannodd at greu'r adnoddau hyn a fydd yn cefnogi ein dysgwyr ymhellach i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer dyfodol gwydn a llewyrchus.

Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg



Cynnwys

Cyflwyniad 4

Pwysigrwydd addysg ariannol mewn ysgolion 5

Sut i weithredu a gwella addysg ariannol yn eich ysgol 8

Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Hengastell, Pen-y-bont ar Ogwr 14

Astudiaeth achos: Fferm Seren yn Ysgol Pentrecelyn, Rhuthun 15

Cymryd y cam nesaf: hyrwyddo addysg ariannol a rhannu arfer gorau 16

Adnoddau a gwasanaethau addysg ariannol 17

Diolchiadau

Hoffai MaPS ddiolch i Lywodraeth Cymru am gefnogi gwaith datblygu'r deunydd ategol hwn. Diolch yn fawr i staff Ysgol Gynradd Hengastell ac Ysgol Pentrecelyn. Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau canlynol am eu cyfraniad: Bank of England, Barclays LifeSkills, Everfi, CThEF, HSBC, Lloyds Banking Group, MyBnk, SynnwyrArian Natwest, Santander, The Money Charity, Twinkl a Menter yr Ifanc.

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r deunydd ategol hwn

Mae heriau i gyllid teuluol yn y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'n fwy nag erioed pa mor bwysig yw hi i blant ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau da am arian, sylfeini allweddol ar gyfer lles ariannol nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd. **Mae Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol** yn gosod nod cenedlaethol o ddwy filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn y DU – gan gynnwys 90,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru – yn derbyn addysg ariannol ystyrlon erbyn 2030. Cefnogir y nod hwn gan y **Cynllun Cyflawni i Gymru**, a gyd-awdurwyd gan Lywodraeth Cymru a MaPS ac a gyhoeddwyd yn 2021.

Ochr yn ochr â rhieni a gofalwyr, mae gan ysgolion ran hanfodol i'w chwarae wrth gyflawni'r uchelgais hwn[1]. Drwy gynnwys addysg ariannol yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn sylfeini ariannol cryf yn yr ysgol.

Nod y deunydd ategol hwn yw helpu ysgolion cynradd yng Nghymru gyda'u darpariaeth o addysg ariannol. Mae'n amlinellu gwerth addysg ariannol i ddysgwyr a'ch ysgol, ac yn nodi arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar sut y gall ysgolion ddatblygu neu wella eu hymagwedd at helpu plant i ddysgu am arian. Yn olaf, mae'n cyfeirio at wasanaethau ac adnoddau y gall ysgolion eu cyrchu i'w cefnogi.

Ar gyfer pwy mae'r deunydd ategol hwn?

Bwriad y deunydd ategol hwn yw helpu i ddatblygu a darparu addysg ariannol mewn ysgolion cynradd, gan gynnwys cymorth ar gyfer:

- arweinwyr ysgol a'u tîm uwch
- arweinwyr cwricwlwm ar gyfer addysg ariannol neu Feysydd Dysgu a Phrofiad perthnasol
- ymarferwyr sy'n darparu addysg ariannol
- llywodraethwyr ysgol, a
- gwasanaethau gwella ysgolion a sefydliadau dysgu proffesiynol.

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn gorff hyd braich i Lywodraeth y DU ac mae'n helpu pobl – yn arbennig y rhai mwyaf anghenus – i wella eu lles ariannol ac adeiladu dyfodol gwell, mwy hyderus. Mae MaPS yn gweithio i sicrhau bod pobl yn gallu cyrchu canllawiau arian a phensiynau a chyngor ar ddyledion o ansawdd uchel, ac i wella darpariaeth addysg ariannol i blant a phobl ifanc yn yr ysgol, gartref ac yn y gymuned.

1 Er hwylustod, bydd y term 'rhieni' yn cael ei ddefnyddio drwy'r deunydd ategol hwn i gyfeirio at rieni a gofalwyr eraill, gan gynnwys gwarcheidwaid a gofalwyr sy'n berthnasau. Bydd y term 'ysgolion' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at bob ysgol a lleoliad.

Pwysigrwydd addysg ariannol mewn ysgolion



Pam mae addysg ariannol yn bwysig i'ch dysgwyr

Mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r agweddau sy'n helpu pobl i reoli arian a chyflawni lles ariannol da yn dechrau datblygu o oedran cynnar. Mae ymchwil yn dangos bod gallu ariannol yn dechrau cael ei lunio rhwng tair a saith oed, a gellir rhagweld canlyniadau ariannol hirdymor o sgiliau a phrofiadau plant mor ifanc â phump oed[2].

Mae addysg ariannol yn yr ysgol – ochr yn ochr â chymorth yn y cartref ac yn y gymuned – yn helpu plant i adeiladu sylfeini ar gyfer lles a gwytnwch ariannol yn y dyfodol. Mae'n eu helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen tuag at wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

Mae plant sy'n dweud iddynt ddysgu am reoli arian yn yr ysgol yn gwneud yn well ar lawer o fesurau gallu ariannol na'u cyfoedion. Maent yn fwy tebygol o:

- teimlo'n hyderus ynghylch rheoli eu harian
- bod yn gynilwyr gweithredol, a
- meddu ar lefelau uwch o reoli arian yn dda o ddydd i ddydd.

Mae lles ariannol hefyd yn ffactor pwysig wrth gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc nawr ac yn y dyfodol. Mae bron i chwarter (24%) o bobl ifanc 14 i 17 oed yng Nghymru yn teimlo bod meddwl am eu sefyllfa ariannol yn eu gwneud yn bryderus, ac mae hyn yn codi i 55% ymhlith pobl 18 i 24 oed[3].

Mae digideiddio cynyddol arian a thrafodiadau ariannol yn dod â chyfleoedd, ond hefyd heriau. Gyda llai o ddefnydd o arian papur a darnau arian, mae llai o gyfleoedd i blant weld neu wneud trafodiadau mewn ffordd gyffyrddadwy. Mae tri o bob pump (60%) o blant 7 i 11 oed yng Nghymru wedi talu am bethau ar-lein, a gwnaed mwy na hanner (53%) y rheini heb oruchwyliaeth oedolyn[4]. Mynediad at bryniannau mewn gemau, 'bocsys ysbeilio' a gamblo ar-lein[5], a phobl ifanc yn cael eu targedu am dwyll[6], i gyd yn arddangos pwysigrwydd cryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth plant o'r dirwedd ariannol o'u cwmpas.

Heb addysg ariannol o ansawdd uchel, mae pob plentyn a pherson ifanc mewn rhyw risg o fod â gallu ariannol gwael a lefelau is o les ariannol. Mae'r risg hon yn cynyddu ymhlith grwpiau mwy agored i niwed, gan gynnwys plant anabl a'r rhai â salwch hirdymor, plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc a'r rhai o gartrefi incwm isel[7]. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod y dull o ymdrin ag addysg ariannol mewn ysgolion yn bodloni anghenion y rhain a'r holl blant a phobl ifanc.

2 Ffurfio Arferion a Dysgu Mewn Plant Ifanc (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013); Y daith o sgiliau plentyndod i allu ariannol oedolion – dadansoddiad o Astudiaeth Carfan Prydain 1970 (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2017)

3 Dadansoddiad o ddata o Arolwg Lles Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU MaPS 2022 ac Arolwg Lles Ariannol Oedolion y DU 2021

4 Dadansoddiad o ddata o Arolwg Lles Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU MaPS 2022

5 Niwed Gamblo – Amser i Weithredu (Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Effaith Gymdeithasol ac Economaidd y Diwydiant Gamblo)

6 Gweler er enghraifft: 36 miliwn o Brydeinwyr wedi'u targedu gan sgamiwr hyd yn hyn eleni (Cyngor ar Bopeth, 14 Mehefin 2021); a Mae recriwtwyr mulod arian yn defnyddio hysbysebion swyddi ffug ar-lein i dargedu 'Cenhedlaeth Covid' (Cifas, 11 Mawrth 2021)

7 Archwilad Dwfn Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc: Bregusrwydd (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2018)



Pam fod addysg ariannol yn bwysig i'ch ysgol

Addysg ariannol a'r cwricwlwm

Mae addysg ariannol yn elfen hanfodol o'r Cwricwlwm i Gymru a gall gefnogi dysgwyr i gyflawni mewn perthynas â phob un o bedwar diben y cwricwlwm. Mae dysgu am reoli arian, cynilion a buddsoddiadau o ddydd i ddydd, dewisiadau gwario a sut rydym yn teimlo am arian i gyd yn allweddol i gefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn: dysgwyr uchelgeisiol, galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion moesegol, gwybodus; ac unigolion iach, hyderus[8].

Mae dysgu am arian yn rhan statudol o Faes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd, er enghraifft cefnogi dysgwyr i:

- defnyddio arian, ac iaith arian, mewn sefyllfaoedd chwarae a bywyd go iawn a deall bod angen iddynt gyfnewid arian am eitemau (cam cynnydd 1)
- deall cywerthedd a gwerth darnau arian a phapurau arian i wneud trafodiadau priodol wrth chwarae rôl (cam cynnydd 2)
- deall incwm a gwariant, a chymhwyso cyfrifiadau i archwilio elw a cholled (cam cynnydd 3).
- cymhwyso canrannau a chymhareb i ddatrys problemau gan gynnwys llog syml ac adlog, adbrisiant a dibrisiant,cyfrifo cyllidebau, arian tramor, a threthiant sylfaenol ar nwyddau a gwasanaethau (cam cynnydd 4)
- datblygu eu dealltwriaeth o gyllid mewn cyd-destunau personol, lleol a byd-eang (cam cynnydd 4)
- datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o gyfradd gyfatebol flynyddol (AER) a chyfradd ganrannol flynyddol (APR) fel y gallant werthuso a chymharu cynhyrchion ariannol (cam cynnydd 5)
- cyfrifo treth incwm a deall goblygiadau trethiant gan gynnwys defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru a threthi eraill sydd wedi'u datganoli i Gymru (cam cynnydd 5).

Yn ogystal, gall addysg ariannol wella addysgu pynciau mathemategol eraill, gan gefnogi plant i gymhwyso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn cyd-destunau bywyd go iawn fel elfen allweddol o'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol[9]. Mae'r fframwaith rhifedd anstatudol yn nodi nifer o gamau dilyniant llythrennedd ariannol trawsgwricwlaidd, gan osod disgwyliad ar y rhai sy'n gweithio ar draws holl feysydd y cwricwlwm i gefnogi plant i ddatblygu eu sgiliau arian. Yng Nghymru, mae addysg ariannol yn gyfrifoldeb pob ymarferydd.

Beth yw addysg ariannol?

Addysg ariannol yw unrhyw brofiad dysgwr sy'n helpu plant i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i reoli arian yn dda, gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus a chyflawni eu nodau. Gall gwmpasu ystod eang o bynciau sy'n ymateb i anghenion plant, o adnabod papurau arian a darnau arian, rheoli cyllideb sylfaenol a chynilo, i ddeall y gwahaniaeth rhwng anghenion a chwenychiadau, y cysylltiad rhwng arian a gwaith a chadw arian yn ddiogel.

8 Pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, fel yr amlinellir yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

9 hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/

Gall dysgu am arian fod yn sail i gynnydd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y Maes Iechyd a Lles, yng ngoleuni perthnasedd arian i emosiynau a lles meddyliol plant a phobl ifanc, perthnasoedd, gwneud penderfyniadau a dealltwriaeth o risg.

Trwy addysg ariannol, gall ysgolion gynllunio cwricwlwm sy'n rhoi sylw i rai o themâu trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru[10]. Er enghraifft, mae dysgu am hysbysebu neu ddefnydd moesegol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae dysgu am gyflogau neu bensiynau, neu gyllidebu fel rhan o weithgaredd menter, yn darparu cyfleoedd i ddatblygu gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith dysgwyr.

Cefnogi canlyniadau ehangach mewn ysgolion

Gall addysg ariannol gefnogi darpariaeth ehangach mewn ysgolion, gan gynnwys:

- arddangos sut mae'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu ehangach yn hyrwyddo lles a datblygiad personol dysgwyr, fel y'i diffinnir yn Fframwaith Arolygu Estyn[11]
- hybu iechyd meddwl a lles plant drwy eu helpu i archwilio teimladau am arian a'u hanghenion a'u chwenychiadau
- cefnogi trosglwyddiad cadarnhaol i'r ysgol uwchradd, pan fydd pobl ifanc yn gallu cymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli arian a gwariant, a
- meithrin perthnasoedd â'r gymuned ehangach, gan gynnwys banciau, undebau credyd a busnesau lleol.

Cychwyn yn gynnar

Mae sgiliau ac agweddau ariannol yn dechrau ffurfio rhwng tair a saith oed, ac yn cael eu dylanwadu gan rieni a gofalwyr. Gall datblygu sgiliau hanfodol yn gynnar, fel hunanreolaeth a boddhad gohiriedig, gael effaith fawr. Bydd gan blant a phobl ifanc wahanol anghenion cysylltiedig ag oedran a dylai 'eiliadau arian mawr' ac addysg ariannol ddatblygu fel y maent. Er enghraifft, gall plant sy'n gadael yr ysgol gynradd fod yn cael arian rheolaidd, bod ganddynt ffôn symudol, yn prynu ar-lein ac yn gallu agor cyfrif banc.

10 https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm
11 https://www.estyn.gov.wales/document-page/20862/contents/document-details/estyn-inspection-framework

Sut i weithredu a gwella addysg ariannol yn eich ysgol



Mae nifer o gamau y gall ysgolion eu cymryd i gryfhau eu darpariaeth o addysg ariannol. Efallai bod eich ysgol eisoes wedi gwneud rhai neu'r rhan fwyaf o'r rhain, ond efallai yr hoffech ddefnyddio'r cyfle hwn i adolygu a oes unrhyw beth arall y gallwch ei ystyried.

Er mwyn datblygu a gwella'r addysg ariannol a gynigir ganddynt, dylai ysgolion:

- **Adolygu gofynion ac argymhellion y cwricwlwm**
- **Adolygu'ch darpariaeth bresennol ac asesu gwybodaeth ac anghenion dysgu plant**
- **Casglu mewnbwn gan blant, staff a rhieni**
- **Ystyried cael hyrwyddwr addysg ariannol**
- **Creu amgylchedd dysgu diogel**
- **Ystyried sut i gefnogi plant ag anghenion penodol**
- **Dod o hyd i'r help sydd ei angen arnoch - adnoddau, hyfforddiant a darparwyr allanol**
- **Anelu at ymagwedd ysgol gyfan**
- **Monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth**
- **Cynnwys rhieni a gofalwyr wrth ddarparu addysg ariannol**

Adolygu gofynion ac argymhellion y cwricwlwm

Dylai ysgolion adolygu'r **Maes Mathemateg a Rhifedd**, **y Maes Iechyd a Lles** a **sgiliau trawsgwricwlaidd** i greu darlun o ddisgwyliadau yn ymwneud â darparu addysg ariannol. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnwys: sut i reoli arian; dod yn ddefnyddiwr beirniadol; rheoli risgiau ac emosiynau sy'n gysylltiedig ag arian; a deall y rôl bwysig y mae arian yn ei chwarae yn ein bywydau.

Adolygu'ch darpariaeth bresennol ac asesu gwybodaeth ac anghenion dysgu plant

Bydd adolygu addysgu presennol eich ysgol mewn perthynas ag addysg ariannol yn helpu i sefydlu cryfderau a nodi unrhyw fylchau. Mae'n ddefnyddiol edrych y tu hwnt i'r cwricwlwm, er enghraifft i ystyried a yw addysg ariannol hefyd yn cael ei chyflwyno trwy wasanaethau neu weithgareddau a chlybiau allgyrsiol.

Mae hefyd yn ddefnyddiol deall gwybodaeth a sgiliau cyfredol plant ac agweddau mewn perthynas ag arian er mwyn sefydlu eu hanghenion dysgu a sut i strwythuro neu addasu'r cwricwlwm. Gallech gynnal asesiad sylfaenol – megis cwis, map meddwl, gweithgaredd lluniadu ac ysgrifennu – gan wirio gwybodaeth a dilyniant dysgwyr mewn perthynas â'r **fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd**.

Cwestiynau i'ch helpu i adolygu'ch darpariaeth bresennol

1. Beth yw anghenion dysgu ariannol a blaenoriaethau plant yn yr ysgol hon?
2. Sut olwg sydd ar addysg ariannol ar hyn o bryd yn ein cwricwlwm o ran:
   - gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dysgwyr
   - dilyniant
   - pryd mae'n digwydd
   - sgiliau a hyder athrawon
   - cysylltiadau â darparwyr allanol
   - cysylltiadau â rhieni a'r gymuned?
3. Ble mae'r bylchau yn ein cwricwlwm presennol?
4. Sut gallwn ni adeiladu ar yr hyn sydd gennym eisoes ar gyfer y flwyddyn gynllunio nesaf?
5. Beth sydd angen i ni ei roi ar waith i gyflawni ein nodau?
6. Ble gallwn ni ddod o hyd i adnoddau a chymorth?
7. Beth arall allwn ni ei wneud i hyrwyddo addysg ariannol?
8. Sut gallwn ni wella rhannu gwybodaeth am yr hyn a wnawn?

Casglu mewnbwn gan ddisgyblion, staff a rhieni

Gall fod yn ddefnyddiol cynnwys dysgwyr, staff a rhieni wrth benderfynu ar flaenoriaethau addysg ariannol eich ysgol a'r hyn y dylid ei addysgu. Gall hyn hybu ymrwymiad ac, yn benodol, gall fod yn bwynt ymgysylltu â rhieni.

- Gellir ymgynghori â dysgwyr trwy gyngor yr ysgol, trwy greu arolwg, neu ofyn i'r plant eu hunain gasglu barn a syniadau eu cyfoedion ar ba agweddau ar arian y maent am ddysgu amdanynt.
- Gellir hefyd ymgynghori â staff a gofyn iddynt nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau y dylai plant fod yn eu datblygu ym mhob cyfnod, a rhannu blaenoriaethau ar gyfer eu hanghenion hyfforddi eu hunain.
- Mae gan rieni ddylanwad pwysig ar wybodaeth, sgiliau ac arferion ariannol eu plant. Gallai ymgynghori â nhw wrth i chi gynllunio'ch cynnig addysg ariannol gefnogi ymgysylltu yn y dyfodol â gweithgareddau dysgu yn y cartref sy'n gysylltiedig ag arian. (Gweler rhagor ar **ymgysylltu â rhieni a gofalwyr**).

Ystyriwch gael hyrwyddwr addysg ariannol

Gall cael hyrwyddwr addysg ariannol a all arwain addysg ariannol ar draws yr ysgol helpu i sicrhau darpariaeth effeithiol. Gall hyrwyddwr helpu i nodi cyfleoedd i ymgorffori addysg ariannol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Gallant gynllunio a chydlynu dull mwy datblygedig a chydlynol o weithredu ar draws yr ysgol, gan dynnu ar ganfyddiadau'ch adolygiad a'ch asesiad sylfaenol, a gallant gefnogi staff i feithrin sgiliau a hyder i ymgorffori addysg ariannol yn eu gwersi.

Creu amgylchedd dysgu diogel

Bydd athrawon am gadw mewn cof y sensitifrwydd penodol ynghylch siarad ac addysgu am arian, wrth gynllunio gweithgareddau addysg ariannol.

Bydd plant a staff ysgol yn dod â gwahanol safbwyntiau diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol i sgyrsiau a gwersi am faterion ariannol. Dylai addysgu a dysgu grynhoi, a gall fod yn gyfle i archwilio, y gwahanol werthoedd a roddir ar arian yn ôl crefydd a diwylliant.

Efallai bod rhai plant wedi cael profiadau anodd gyda materion ariannol o fewn y teulu, gan gynnwys profiadau o galedi ariannol neu gam-drin economaidd. Dylai athrawon gydgysylltu â chydweithwyr i nodi ac amddiffyn unrhyw ddysgwyr a allai fod yn agored i niwed gan rai agweddau ar y testun.
Er mwyn creu amgylchedd sy'n grymuso pob plentyn i gymryd rhan, gall athrawon ystyried: gosod rheolau sylfaenol; dadbersonoli trafodaethau gan ddefnyddio technegau ymbellhau megis storïau, chwarae rôl, neu sefyllfaoedd go iawn gyda chymeriadau ffuglennol; ac annog pawb i osgoi gwneud

rhagdybiaethau ynghylch arian a chyllid (er enghraifft, bod pob plentyn yn cael arian poced).

Gallai sgyrsiau am arian arwain at ddysgwyr yn datgelu gwybodaeth sy'n cyfiawnhau ymateb diogelu. Gweithiwch bob amser o fewn polisïau'ch ysgol ar ddiogelu a chyfrinachedd os bydd hyn yn codi.

Ystyried sut i gefnogi plant ag anghenion penodol

Wrth gynllunio'ch darpariaeth, bydd yn ddefnyddiol myfyrio ar anghenion penodol poblogaeth eich ysgol. Mae ein hymchwil yn dangos bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn llai tebygol o feddu ar sgiliau ariannol cryf a gallent elwa o gymorth ychwanegol, gan gynnwys plant:

- sydd â chyflwr hirdymor sy'n gysylltiedig â dysgu, deall a chanolbwyntio
- sydd â salwch hirdymor
- y mae eu mathemateg neu rifedd islaw disgwyliadau oedran
- gyda lefelau is o sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a/neu broblemau ymddygiad
- sy'n tyfu i fyny mewn cartrefi incwm isel[12].

Gallai rhai plant a phobl ifanc elwa ar addysg ariannol wedi'i thargedu neu fod mewn mwy o berygl o gael canlyniadau ariannol gwael oherwydd eu hamgylchiadau ehangach, megis y rhai sydd mewn gofal neu'n gadael gofal, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, neu'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae profiad o wneud dewisiadau a chymryd cyfrifoldeb ag arian yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc sy'n anabl neu ag anghenion dysgu ychwanegol. Gall addysg ariannol gefnogi eu trosglwyddiad i'r cyfnodau dysgu nesaf a thuag at fwy o annibyniaeth, gan gynnwys eu helpu i amddiffyn eu hunain rhag camfanteisio ariannol.

Efallai y bydd ysgolion am addasu eu hymagwedd ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol a:

- sicrhau bod ganddynt wybodaeth am nodweddion unigol a chyd-destunau bywyd y dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol fel y gallant sicrhau bod unrhyw gynnwys yn addas
- gweithio gyda rhieni a gofalwyr i ddeall beth maen nhw'n meddwl y byddai eu plant yn elwa o ddysgu.

Gall fod yn fuddiol i ysgolion sy'n cefnogi plant ag anghenion penodol rannu rhwng eu rhwydweithiau athrawon unrhyw adnoddau a gweithgareddau addysg ariannol y maent wedi'u haddasu neu eu datblygu ac wedi'u canfod yn effeithiol.

Dod o hyd i'r help sydd ei angen arnoch - adnoddau, hyfforddiant a darparwyr allanol

Mae nifer o adnoddau a gwasanaethau a all eich cefnogi i ddarparu addysg ariannol o ansawdd uchel. Ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y math o gymorth y gallai fod ei angen arnynt – boed hynny'n golygu dod o hyd i adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, hyfforddi staff neu wahodd asiantaethau allanol i gyflwyno gweithdy.

Dod o hyd i adnoddau o safon

Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i gefnogi addysg ariannol, darparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, pynciau ac arddulliau addysgu a dysgu. Gweler **Adnoddau a gwasanaethau addysg ariannol** am restr o adnoddau addysg ariannol gan gynnwys y rhai sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

12 Archwilad Dwfn Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc: Bregusrwydd (Gwasanaeth Arian a Phensiynau, 2018); a dadansoddiad o'r data Arolwg Galluogrwydd Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU MaPS 2019

Gall ysgolion hefyd chwilio am adnoddau gyda'r Marc Ansawdd Addysg Ariannol. Wedi'i ariannu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a'i ddarparu gan Young Money, mae'r cynllun yn sicrhau ansawdd adnoddau ar gyfer cywirdeb a pherthnasedd addysgol.

Hyfforddi athrawon i gyflwyno addysg ariannol

Mae addysg ariannol yn fwyaf effeithiol pan fydd athrawon wedi'u hyfforddi'n dda, yn wybodus ac yn hyderus yn y deunydd pwnc a'r addysgeg briodol i fynd ato. Mae hyfforddi hyrwyddwyr addysg ariannol yn flaenoriaeth, er mwyn datblygu eu harbenigedd a'u gallu i gefnogi staff eraill. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cael ei ddilyn gan hyfforddiant ar gyfer yr holl addysgwyr a staff cymorth sy'n ymwneud ag addysg ariannol, naill ai wedi'i raeadru gan yr athro arweiniol (os yw'n hyderus) neu gan ddarparwr allanol.

Gweler **Adnoddau a gwasanaethau addysg ariannol** am fanylion darparwyr hyfforddiant i athrawon addysg ariannol.

Defnyddio darparwyr allanol

Mae amrywiaeth o ddarparwyr allanol a all gefnogi ysgolion ag addysg ariannol, gan gynnwys elusennau, undebau credyd, banciau a busnesau. Gellir defnyddio darparwyr allanol mewn amrywiaeth o ffyrdd i wella darpariaeth addysg ariannol, gan gynnwys darparu hyfforddiant i staff, arwain gweithdy neu gynulliad dosbarth, a/neu gefnogi'r ysgol i greu cynllun ysgol gyfan ar gyfer addysg ariannol. Gall gweithio gyda busnesau neu elusennau lleol hefyd helpu i feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.

Er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf gan ddarparwr allanol, mae'n ddefnyddiol i ysgolion:

- bod yn glir ynghylch bwriadau a chanlyniadau dysgu a sut y caiff y dysgu ei asesu
- archwilio'r hyn y mae'r rhaglen yn ei gynnig – ei diben, ei chynnwys, y mathau o ymgysylltu a sut y caiff ei hymgorffori yn y cwricwlwm addysg ariannol
- cyfathrebu â'r darparwr ymlaen llaw – gan amlygu polisïau ysgol perthnasol, anghenion dysgu plant a faint o amser sydd ar gael – fel y gall y darparwr ystyried y ffordd orau o gyflwyno a gwahaniaethu'r dysgu
- cydweithio gyda'r darparwr i sicrhau bod gweithgareddau yn addysgiadol gadarn ac yn briodol ar gyfer y dysgwyr a'r cyd-destun lleol
- grymuso athrawon i ymgysylltu â'r profiad, hyd yn oed os yw'n cael ei gyflwyno gan drydydd parti. Caniatáu iddynt ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder eu hunain, yn ogystal â chynnig adborth a bod yn rhan o'r broses werthuso
- ystyried sut i osod y sylfeini ar gyfer dysgu cyn y sesiwn ac ymestyn y dysgu wedyn (mae rhai rhaglenni'n cynnig adnoddau ystafell ddosbarth parod at y diben hwn).

Gweler **Adnoddau a gwasanaethau addysg ariannol** am restr o ddarparwyr gweithdai addysg ariannol a gwasanaethau eraill.

Anelwch at ymagwedd ysgol gyfan

Gall ymagwedd gydlynol, ysgol gyfan at addysg ariannol gyfrannu at gwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog sy'n adeiladu ar gynnydd dysgwyr ac yn annog y camau nesaf.

Mae dulliau gweithredu posibl yn cynnwys:

Defnyddio gwahanol Feysydd Dysgu: Cyflwyno addysg ariannol trwy amrywiaeth o Feysydd, gan fynd y tu hwnt i'r hyn a amlinellir yn y Maes Mathemateg a Rhifedd. Mae cyfleoedd yn cynnwys:

- archwilio'r cysylltiadau rhwng arian a lles meddyliol, perthnasoedd iach a chymryd risgiau fel rhan o Addysg Iechyd a Lles ac Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb
- trafod y cysylltiadau rhwng ein dewisiadau arian a gwario, ein heffaith ar yr amgylchedd a chreu dyfodol cynaliadwy fel rhan o Wyddoniaeth a Thechnoleg
- archwilio sut y gellir cyfathrebu, mynegi a llunio trafodaethau teuluol am wario arian a dewisiadau ariannol fel ysgogiad yn y Celfyddydau Mynegiannol
- wrth ddarllen llenyddiaeth, trafod sut mae iaith yn ein cysylltu â phobl, lleoedd a chymunedau trwy fynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth yng nghyd-destun arian
- archwilio gwerth arian a beth sy'n dylanwadu ar ddewisiadau ariannol pobl o fewn y Dyniaethau.

Dull trawsgwricwlaidd a darpariaeth gyfannol: Anelu at gyflwyno addysg ariannol yn fwy cyfannol drwy ei gwreiddio ar draws nifer o Feysydd y cwricwlwm, gan ganolbwyntio o bosibl ar thema a ddewisir gan ddysgwyr, megis bwyta'n iach ar gyllideb neu gadw arian yn ddiogel.

Diwrnod neu wythnos ffocws: Codwch broffil addysg ariannol trwy wythnos ffocws ysgol gyfan, er enghraifft yn ystod **Wythnos Siarad am Arian** neu **Wythnos Fy Arian**. Mae'n werth nodi, er y gall diwrnodau amserlen adfeiliedig roi ffocws, y dylid eu defnyddio fel rhan o'r cymysgedd o gyfleoedd, nid fel yr unig ddull o ddarparu addysg ariannol.

Cynulliadau: Defnyddiwch gynulliad i roi mwy o amlygrwydd i addysg ariannol neu i wneud cysylltiadau â materion cyfoes, yn gysylltiedig ag ethos a gwerthoedd yr ysgol.

Gwaith Cartref: Gosodwch rai tasgau addysg ariannol ar gyfer gwaith cartref neu fel dysgu gwrthdro, i gefnogi dysgu trwy brofiad ac annog cydweithio gyda rhieni a gofalwyr. Dylid ystyried natur sensitif y pwnc os gosodir unrhyw waith cartref ar addysg ariannol – er enghraifft trwy sicrhau bod tasgau yn cael eu dadbersonoli ac nad oes gofyn i blant rannu profiadau personol yn ymwneud â lles economaidd.

Yn gysylltiedig â digwyddiadau calendr ysgol: Manteisiwch ar gyfleoedd sy'n codi yn ystod y flwyddyn ysgol, er enghraifft rhedeg siop ysgol, cynllunio ac ariannu taith i ffwrdd, sefydlu cangen undeb credyd yr ysgol, cyllidebu ar gyfer cynhyrchiad yr ysgol, sefydlu menter gymdeithasol, neu drefnu digwyddiad elusennol.

Defnyddio 'eiliadau addysgadwy' a chyfleoedd ar gyfer dysgu drwy brofiad: Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant yn fwyaf parod i ddysgu am arian pan fydd yn ymwneud â digwyddiadau yn eu bywydau go iawn a gellir ei roi ar waith[13]. Gall cyfleoedd i siarad am arian ddeillio o rywbeth yn y newyddion, rhywbeth sydd wedi digwydd ym mywyd plentyn (e.e. derbyn arian fel anrheg, cael anifail anwes newydd) neu gwestiwn chwilfrydig yn unig ("Sut mae arian yn mynd i mewn i beiriant codi arian?", "Pwy a ddyfeisiodd arian?" neu "Oes rhaid i blant gael arian poced?"). Er y gall y cyfleoedd hyn godi'n ddigymell, gall ysgolion hefyd gynllunio darpariaeth o amgylch digwyddiadau ar wahanol gyfnodau bywyd, megis paratoi plant ar gyfer y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd.

13 Datblygu Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc: Adolygiad o'r Dystiolaeth (Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a Phrifysgol Caeredin, 2023)

Monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth

Gall monitro a gwerthuso'ch darpariaeth addysg ariannol eich helpu i asesu'r effaith gyffredinol a gwella canlyniadau plant. Gallai gynnwys arsylwi dysgu, adolygu gwaith dysgwyr, neu ymgynghori â staff, plant neu ymweld â darparwyr.

Cwestiynau i'ch helpu i werthuso gwerth profiad dysgwr Pa mor dda y cyflawnwyd y dibenion a'r canlyniadau arfaethedig?

1. Pa mor dda y cyflawnwyd y dibenion a'r bwriadau dysgu?
2. A oedd dysgu anfwriadol cadarnhaol hefyd?
3. A wnaeth y cyfleoedd dysgu arwain at gynnydd?
4. Pa mor dda y cafodd anghenion dysgwyr eu bodloni?
5. Pa addysgeg weithiodd orau?
6. Pa weithgareddau ac adnoddau oedd fwyaf defnyddiol (gan gynnwys defnyddio darparwyr allanol)?
7. Pa faterion sydd wedi codi a beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain?

Cynhwyswch rieni a gofalwyr wrth gefnogi addysg ariannol

Mae ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn ffactor allweddol wrth helpu plant i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac arferion ariannol da. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn dangos bod plant yn fwy tebygol o fod â galluogrwydd ariannol da os yw eu rhiant neu ofalwr yn rhoi arian rheolaidd iddynt (waeth beth fo'r swm), yn gosod rheolau ynghylch arian ac yn rhoi cyfrifoldeb iddynt am rai penderfyniadau gwariant[14]. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod rhaglenni addysg ariannol yn fwy tebygol o gael effaith pan fydd rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan[15].

Mae'n bwysig felly bod ysgolion yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y rôl hanfodol y gallant ei chwarae, a'u cynnwys yn nysgu plant am arian. Nid yw llawer o rieni a gofalwyr yn teimlo'n hyderus i siarad â'u plant am arian[16], a gall arian fod yn bwnc hynod sensitif neu anghyfforddus i rai. Felly, argymhellir anogaeth ysgafn i gymryd rhan. Gall ysgolion ystyried estyn allan drwy wefan yr ysgol, e-byst, cylchlythyrau, apiau ysgol, cyfryngau cymdeithasol neu ddigwyddiadau rhwydweithio.

Mae awgrymiadau ar gyfer cynnwys rhieni a gofalwyr yn cynnwys:

- darparu awgrymiadau ymarferol ar sut i gynnwys plant mewn defnyddio arian a chynllunio, gan gynnwys ar-lein (e.e. siopa, archwilio biliau, cyllidebu) a gosod nodau ariannol (e.e. cynilo ar gyfer pryniant neu ddigwyddiad arbennig)
- dal llais rhieni ar addysg ariannol (e.e. arolwg ysgol gyfan)
- cynnwys rhieni mewn gweithgareddau dysgu yn ymwneud ag addysg ariannol, trwy dasgau gwaith cartref cydweithredol sy'n annog trafodaeth am arian, a thrwy rannu cynllunio testun addysg ariannol, fel bod rhieni'n gwybod beth fydd yn cael ei gynnwys
- cyfeirio at ymyriadau i ddatblygu sgiliau rhieni eu hunain o ran siarad â'u plant am arian a rheoli arian
- cynnal digwyddiad sy'n dod â rhieni a phlant ynghyd i ddatblygu addysg ariannol
- rhannu profiadau, arfer effeithiol a syniadau am addysg ariannol gyda'r gymuned ehangach, gan gynnwys rhieni.

Mae rhai o'r adnoddau a chymorth yn **adnoddau a gwasanaethau addysg ariannol** yn cynnwys gweithgareddau i helpu rhieni i siarad â'u plant am arian. Mae hyn yn cynnwys **Siarad Dysgu Gwneud HelpwrArian**, canllaw rhad ac am ddim i rieni a gofalwyr i'w helpu i addysgu eu plant am arian.

14 Dadansoddiad o Arolwg Lles Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU (Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, 2023); Plant a Phobl Ifanc a Gallu Ariannol: Dadansoddiad Anghenion (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2018)

15 Datblygu Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc: Adolygiad o'r Dystiolaeth (Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a Phrifysgol Caeredin, 2023)

16 Arolwg Lles Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU: Sylfeini Ariannol (Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, 2023)

Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Hengastell, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Ysgol Gynradd Hengastell wedi ymrwymo i ddarparu addysg ariannol cynhwysfawr sy'n mynd y tu hwnt i gyfarwyddyd traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth. Mae ymagwedd yr ysgol at addysg ariannol yn amlochrog, yn cynnwys integreiddio'r cwricwlwm, archwilio gyrfa yn y byd go iawn a mentrau cynilo ymarferol. Trwy ddarparu ar gyfer anghenion unigol ei myfyrwyr, mae'r ysgol yn anelu at feithrin dealltwriaeth gydol oes o egwyddorion ariannol sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Dysgu trwy brofiad

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar ddysgu trwy brofiad, gan helpu i ddod â chysyniadau ariannol yn fyw trwy eu cymhwyso yn y byd go iawn. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ymarferion ymarferol, efelychiadau a phrosiectau sy'n adlewyrchu'r penderfyniadau ariannol y byddant yn dod ar eu traws yn eu bywydau. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth wynebu'r her o ddarparu addysg ariannol yng nghyd-destun cymdeithas ddigidol a heb arian parod.

Mae addysg ariannol yn rhan allweddol o ddathliad Hengastell o Wythnos Gyrfaoedd bob blwyddyn. Gan gydweithio â busnesau ac elusennau lleol, mae'r digwyddiad yn arwain disgyblion i ddeall goblygiadau ariannol eu dewisiadau gyrfa, gan eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.

Hyrwyddo cynilo

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth ystyrlon gydag Undeb Credyd Achubwyr Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddod ag addysg ariannol yn fyw trwy Glwb Cynilo'r Ysgol. Gweithredir y clwb mewn cydweithrediad â disgyblion, ac mae'n annog cynilo cyson, gyda disgyblion yn cyfrannu arian yn wythnosol ac yn olrhain eu cynnydd gyda Llyfr Cynilion Ysgol personol. Hwylusir tynnu arian allan ddwywaith y flwyddyn, yn unol â'r calendr academaidd. Mae Clwb Cynilo'r Ysgol yn rhoi cyfle gwerthfawr i bob disgybl feithrin arferiad cynilo. Mae integreiddio'r fenter hon i drefn yr ysgol yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer meithrin cyfrifoldeb ariannol dysgwyr.

Diwallu anghenion amrywiol

Gan gydnabod anghenion amrywiol eu dysgwyr, mae Hengastell wedi rhoi rhaglen bwrpasol ar waith ar gyfer y rhai sydd â hawl i'r grant amddifadedd disgyblion. Mae'r rhaglen hon yn rhoi pwyslais cryf ar sgiliau bywyd, gan fynd i'r afael yn benodol â chyllidebu ariannol. Mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol yng Nghlwb Cynilo'r Undeb Credyd, gan roi profiad ymarferol iddynt i ddeall pwysigrwydd cyllidebu a chynilo.

Ochr yn ochr â'r dull targedig hwn, mae'r ysgol yn creu cynlluniau dysgu unigol ar gyfer pob myfyriwr, gan gydnabod bod gan bob dysgwr gryfderau, heriau ac arddulliau dysgu unigryw. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried eu gwybodaeth, sgiliau a dewisiadau presennol, gan sicrhau bod yr addysg ariannol a gynigir yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb.

Cynyddu hyder a meddwl beirniadol

Wrth fyfyrio ar effaith eu cynnig addysg ariannol, dywed Pennaeth Hengastell, "Mae addysg ariannol wedi profi i fod yn rym trawsnewidiol o fewn cymuned ein hysgol, gan feithrin diwylliant o wneud penderfyniadau gwybodus. Drwy arfogi ein myfyrwyr â sgiliau llythrennedd ariannol hanfodol, rydym wedi gweld mwy o hyder, gwell meddwl beirniadol, ac ymdeimlad o rymuso. Mae hyn yn gwella lles ariannol unigolion ac yn cyfrannu at gymuned ysgol fwy gwydn ac ymgysylltiol, gan baratoi ein disgyblion ar gyfer llwyddiant yn eu taith academaidd ac yn eu hymdrechion i'r dyfodol."

Astudiaeth achos: Fferm Seren yn Ysgol Pentrecelyn, Rhuthun

Mae Ysgol Pentrecelyn yn ysgol gynradd wledig, cyfrwng Cymraeg, a leolir ger Rhuthun yng Ngogledd Cymru. Darperir addysg ariannol yn yr ysgol drwy nifer o lwybrau, gan gynnwys:

- prosiectau menter megis ffeiriau ysgol a 'Choffi Celyn', coffi Masnach Deg brand Pentrecelyn, y mae'r gwerthiant ohono'n cyfrannu at weithgareddau ac adnoddau'r ysgol
- prosiectau trawsgwricwlaidd megis trefnu ymweliadau â safleoedd lleol a gwneud defnydd o gynnyrch cartref o ardd yr ysgol i wneud a gwerthu nwyddau mewn marchnadoedd lleol.

Cyd-greu Fferm Seren

Gan ddechrau yn 2022, fe fu Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Pentrecelyn yn cydweithio â Menter yr Ifanc i gyflwyno prosiect addysg ariannol a oedd yn adlewyrchu anghenion a diddordebau penodol eu cymuned wledig. Cododd yr angen am y prosiect o gynllun datblygu'r ysgol (CDY) yn dilyn y pandemig, a nododd yr effaith ar alluoedd rhifedd ac ariannol dysgwyr.

Gyda'i gilydd, fe wnaeth y dysgwyr, yr athrawon a'r arbenigwyr addysg ariannol greu Fferm Seren, adnodd llythrennedd ariannol dwyieithog sy'n gwneud y cysylltiadau rhwng ffermio a sgiliau ariannol a menter. Mae'r adnodd yn mynd i'r afael â phwysigrwydd hanfodol rhifedd, llythrennedd ariannol a meddwl mentrus i yrfa lwyddiannus mewn ffermio neu sector cysylltiedig. Fe fu plant o Ysgol Pentrecelyn yn helpu i ddatblygu'r cymeriadau, y plot a'r darluniau ar gyfer y llyfr gwaith, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu nodweddion eu cymuned wledig.

Bydd gweithlyfr Fferm Seren yn cael ei lansio drwy weithdai i 20 o ysgolion eraill mewn cymunedau gwledig yng Nghymru yn nhymor y Gwanwyn a'r Haf 2024.

Dod â dysgu cymhwysol yn fyw

Dywedodd pennaeth Ysgol Pentrecelyn, "Fel ysgol gynradd fach wledig, lle mae ffermio wrth galon y gymuned, roeddem am greu adnodd a oedd yn wirioneddol adlewyrchu nodweddion ein hamgylchedd lleol. Nid oedd unrhyw adnodd penodol ar gael, felly fe benderfynon ni, gyda chymorth arbenigwyr addysg ariannol, ein cymuned ysgol a Menter yr Ifanc, greu rhywbeth unigryw.
Mae'r adnodd rydym wedi'i greu'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'n hanghenion datblygu sgiliau ariannol a rhifedd ac mae'r un mor werthfawr i ddysgwyr eraill mewn amgylcheddau gwledig tebyg."

Wrth fyfyrio ar effaith y prosiect ar ddysgwyr, dywedodd pennaeth Ysgol Pentrecelyn: *"Mae ein dysgwyr wedi elwa mewn nifer o ffyrdd o'r gwaith hwn, gan fod yn rhan o'r broses greadigol a datblygu adnodd sy'n wirioneddol adlewyrchu eu hamgylchedd lleol, gwledig. Mae'r prosiect wedi ein helpu i ddod â Dysgu Cymhwysol yn fyw, gan roi cyfle i'n pobl ifanc wneud cysylltiad rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut y gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ymarferol yn eu bywydau yn y dyfodol."*

Cymryd y cam nesaf: hyrwyddo addysg ariannol a rhannu arfer gorau



Mae hyrwyddo addysg ariannol yn golygu helpu plant, staff, teuluoedd a'r gymuned ehangach (gan gynnwys ysgolion eraill, grwpiau cymunedol a busnesau) i ddeall ei phwysigrwydd. Yn aml gall hyn wella dysgu a darparu atebion lleol i broblemau lleol.

O fewn yr ysgol

Gallai dulliau hyrwyddo i ddysgwyr a staff gynnwys defnyddio gwasanaethau, mewnrwyd yr ysgol, gwobrau dysgu, cyfarfodydd staff neu ddiwrnodau hyfforddi. Gall plant ddod yn hyrwyddwyr eu hunain, gan rannu eu dysgu trwy gylchlythyr, tudalen we, blog neu fideo. Gallai staff rannu canfyddiadau ymchwil, astudiaethau achos o arfer effeithiol o fewn yr ysgol neu o ysgolion eraill, offer neu awgrymiadau defnyddiol, canlyniadau gwerthuso a straeon llwyddiant.

Ymestyn ymhellach

Gall cynnwys y gymuned leol roi cyd-destunau bywyd go iawn i ddysgwyr, gan gefnogi sgiliau bywyd ehangach yn aml. Gallai dulliau gweithredu posibl gynnwys:

- gweithio gydag eraill i sefydlu gweledigaeth gymunedol o addysg ariannol, gwahodd cynrychiolwyr rhanddeiliaid (gan gynnwys rhieni a dysgwyr) i gydweithio i greu map o sgiliau, adnoddau a chyfleoedd lleol i'ch cymuned i helpu
- anfon cylchlythyr cyfnodol at grwpiau cymunedol perthnasol, anfon datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau lleol a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl
- cyflwyno i lywodraethwyr neu ymddiriedolwyr a gofyn iddynt ddefnyddio eu cysylltiadau â'r gymuned i'ch cefnogi
- creu partneriaethau, er enghraifft: cyfarfod brecwast ar gyfer cyflogwyr neu bartneriaid posibl eraill i drafod sut y gallent weithio gyda'ch ysgol; sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau lleol e.e. banciau ac undebau credyd lleol, mentrau cymdeithasol neu glybiau chwaraeon; neu wahodd cynrychiolwyr cymunedol i gefnogi gwersi addysg ariannol.

Rhannu arfer gorau

Gall ysgolion sy'n rhannu syniadau ac arfer effeithiol â'i gilydd roi hwb i hyder athrawon a gwella addysg ariannol. Gall ysgolion lluosog wneud cysylltiadau i rannu arfer da neu wneud cynllun ar y cyd ar gyfer darparu addysg ariannol o safon, gan weithio trwy wasanaethau gwella ysgolion, grwpiau cydlynwyr pwnc, fforymau ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol.

Adnoddau a gwasanaethau addysg ariannol

Offer cynllunio

Fframweithiau Cynllunio Addysg Ariannol [C]

Mae'r Fframweithiau Cynllunio Addysg Ariannol dwyieithog, a ddatblygwyd gan Young Money (rhan o Fenter yr Ifanc) ac a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, yn awgrymu'r hyn y gallai fod angen i blant a phobl ifanc ei wybod am arian, ar ba oedran. Gellir eu defnyddio i gefnogi cynllunio gwersi ac i ymgynghori â dysgwyr ar eu meysydd diddordeb eu hunain.
young-enterprise.org.uk/teachers-hub/ financial-education/resources-hub/financialeducation-planning-frameworks

Adnoddau i'ch helpu i gyflwyno addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth

Pecyn Cymorth Addysg Ariannol Llywodraeth Cymru [C]

Mae'r rhestr chwarae hon yn darparu dolenni i rannau perthnasol o'r Cwricwlwm i Gymru, gwybodaeth, awgrymiadau ac yn cyfeirio at adnoddau sy'n berthnasol i Lythrennedd Ariannol. Mae llawer o'r adnoddau hyn wedi'u datblygu gan bartneriaid Fforwm Addysg Ariannol Cymru i'w defnyddio mewn gwersi, gyda theuluoedd, ac i gefnogi Dysgu Proffesiynol.
Gweld y pecyn cymorth

Mapio Arian [C]

Adnodd addysg ariannol ar gyfer plant 9 i 12 oed, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a ddatblygwyd gan Young Money (rhan o Fenter yr Ifanc) mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Wedi'i alinio â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r adnodd yn defnyddio cyd-destunau bywyd go iawn ac yn ymdrin â nifer o themâu ariannol.
young-enterprise.org.uk/resources/money-mapping

Sgiliau Bywyd Barclays

Gwersi addysg ariannol rhad ac am ddim sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau oedran 7 i 19 oed, gan gynnwys adnoddau'n benodol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Mae'r gwersi rhyngweithiol yn ymdrin â phynciau o gyllidebu, cynilo, deall anghenion a dymuniadau hyd at adnabod twyll, dehongli slipiau cyflog a chynllunio ar gyfer annibyniaeth ariannol.
barclayslifeskills.com/help-others/lessons

EVERFI

Modiwlau addysg ariannol ar-lein rhyngweithiol rhad ac am ddim ynghyd â gweithgareddau ystafell ddosbarth a thaflenni gwaith yn ymdrin â phynciau o gysyniadau llythrennedd ariannol sylfaenol megis cyllidebu, cynilo ac incwm i ddeall yr economi a chynllunio'ch dyfodol ariannol. Tri chwrs: Vault ar gyfer 9 i 11 oed, Thrive ar gyfer 12 i 16 oed ac Aspire ar gyfer 14 i 16 oed.
everfiteachers.co.uk/register

Mae [C] yn dynodi adnoddau neu wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg

Ffeithiau Treth Iau gan Gyllid a Thollau EF [C]

Ffeithiau Treth Iau yw rhaglen addysg dreth am ddim CThEF ar gyfer myfyrwyr ysgol gynradd (8 i 13 oed). Mae'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar-lein rhad ac am ddim sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i helpu plant i ddysgu am system dreth y DU. Mae'r rhaglen wedi'i chysylltu'n llawn â'r cwricwlwm ac wedi'i dylunio gydag arbenigwyr addysgol.
gov.uk/government/publications/tax-facts-for-children-and-young-people/tax-facts-resources-for-teachers-and-parents

Cynilwyr Bywyd [C]

Rhaglen addysg ariannol yn seiliedig ar werthoedd i helpu dysgwyr 5 i 11 oed i feithrin arferion ariannol iach, a ddarperir gan y Just Finance Foundation heb unrhyw gost i ysgolion. Mae athrawon Cynilwyr Bywyd yn derbyn DPP trawsgwricwlaidd, offer cynllunio, ac adnoddau ystafell ddosbarth gan gynnwys gêm ddigidol, adnoddau drama a llyfr stori.
justfinancefoundation.org.uk/schools-hub

Academi Banc Lloyds

Deunyddiau am ddim i helpu i wella sgiliau gallu ariannol a lles plant a phobl ifanc 5 i 16+ oed. Mae pob pecyn yn cynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal sesiynau un-i-un neu sesiynau grŵp, ynghyd â chyngor ar gyfer rhedeg sesiynau rhithwir.
lloydsbankacademy.co.uk/financial-skills

Synnwyr Arian Nat West

Rhaglen addysg ariannol am ddim i'r rhai 5 i 18 oed, wedi'i chysylltu â'r cwricwlwm. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth i athrawon i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am arian, gyda chynlluniau gwersi, taflenni gweithgaredd, fideos am ddim, gweithgareddau rhyngweithiol, ac adnoddau gwahaniaethol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
mymoneysense.com

Arian a Fi [C]

Rhaglen 12 gwers a gynlluniwyd i gyflwyno dysgwyr, 5 i 11 oed, i'r economi a'r ffordd y mae arian yn gweithio. Mae'r rhaglen yn cynnwys canllaw i athrawon, cynlluniau gwersi a gemau sy'n cynnwys cymeriadau Beano cyfarwydd mewn sefyllfaoedd go iawn sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau am arian. Mae adnoddau gwahaniaethol ar gael i ddiwallu ystod o anghenion dysgu.
schools.beano.com/lesson_plan_category/moneyandme

Arwyr Arian [C]

Rhaglen am ddim sy'n anelu at addysgu addysg ariannol i blant 3 i 11 oed, gartref ac yn yr ystafell ddosbarth, wedi'i chefnogi gan HSBC ac wedi'i datblygu gan Young Money (rhan o Fenter yr Ifanc). Mae'r rhaglen yn cynnig gweithgareddau, llyfrau stori, gemau, arweiniad a hyfforddiant athrawon i helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau ar gyfer dyfodol ariannol llwyddiannus. Yn cynnwys deunydd wedi'i deilwra ar gyfer y rhai sy'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
moneyheroes.org.uk/teacher-hub

Fy Wythnos Arian [C]

Wythnos o weithgareddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, a gynhelir gan Young Money (rhan o Fenter yr Ifanc) ym mis Mehefin, sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ennill sgiliau, gwybodaeth a hyder arian.
young-enterprise.org.uk/teachers-hub/financial-education/financial-education-programmes/my-money-week

Y Gêm Rhifau

Mae adnoddau dysgu rhad ac am ddim Santander a Twinkl ar gyfer plant 5 i 16 oed sy'n cynnwys Ant a Dec wedi'u creu gan athrawon ar gyfer ysgolion a chartrefi ac wedi'u cysylltu â'r cwricwlwm. Gall ysgolion ymuno â'r Cynllun Cydnabod Addysg Ariannol i ddathlu eu gwaith yn addysgu plant am arian.
twinkl.co.uk/resources/adnoddau-cymraeg-welsh-resources/twinkl-partnerships-in-wales-partneriaethau-twinkl-yng-nghymru/cfw-santander

Marc Ansawdd Addysg Ariannol [yn cynnwys rhai adnoddau dwyieithog]

Mae'r Marc Ansawdd Addysg Ariannol yn helpu athrawon i ddod o hyd i adnoddau sydd wedi'u sicrhau o ran ansawdd am eu gwerth addysgol a'u cywirdeb ariannol. Mae adnoddau gyda'r Marc Ansawdd ar gael ar Hyb Adnoddau Young Money (rhan o Fenter yr Ifanc).
young-enterprise.org.uk/teachers-hub/resources

Gweithdai addysg ariannol, hyfforddiant a chymorth

Gall arbenigwyr addysg ariannol roi cymorth ychwanegol, gan gyflwyno gweithdai i'ch dysgwyr a hyfforddiant i athrawon. Gall rhai sefydliadau eich cysylltu â gwirfoddolwyr yn eich cymuned leol.

Yr Eiliad Addysgadwy – e-ddysgu addysg ariannol ar gyfer athrawon yng Nghymru [C]

E-ddysgu am ddim, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gweithio gyda dysgwyr 9 i 12 oed, gan eu helpu i gryfhau'r ddarpariaeth a gwneud cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru. Wedi'i ddatblygu gan Young Money mewn partneriaeth â chonsortia addysg rhanbarthol ac athrawon yng Nghymru, gyda chymorth gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Mae gan Young Money hefyd wasanaeth cynghori addysg ariannol am ddim i athrawon.
young-enterprise.org.uk/teachers-hub/financial-education/support-training/teacher-training/elearning/

www.young-enterprise.org.uk/advisoryservice

MyBnk

Ystod o raglenni addysg ariannol cynhwysol, ar gyfer grwpiau amrywiol o bobl ifanc rhwng 5 a 25 oed, sy'n ceisio dod ag arian yn fyw a helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus. Mae gweithdai yn cynnwys cynilo, cyllidebu, dyled, byw'n annibynnol, a chyllid cyhoeddus a myfyrwyr.
mybnk.org/our-work/financial-education/

SynnwyrArian NatWest

Gweithdai dan arweiniad athrawon i helpu pobl ifanc 5 i 18 oed i ddysgu am arian, gyda chymorth gwirfoddolwr sy'n gyflogai banc.
mymoneysense.com

Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr

Gall rhieni a gofalwyr helpu eu plant i ddatblygu sgiliau ac arferion ariannol da. Gallwch annog cymuned eich ysgol i siarad am arian gartref a rhannu adnoddau a all helpu.

Siarad Dysgu Gwneud gan HelpwrArian, canllaw rhad ac am ddim i rieni a gofalwyr i'w helpu i addysgu eu plant am arian. [C]
moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/talk-money/talk-learn-do

Arwyr Arian gweithgareddau, llyfrau stori a gemau i helpu i addysgu addysg ariannol i blant 3 i 11 oed gartref. [C]
moneyheroes.org.uk/parent-hub

SynnwyrArian NatWest ar gyfer rhieni, gyda gweithgareddau, gemau a fideos i blant 5 i 18 oed.
mymoneysense.com

Mawrth 2024

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith MaPS i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol yn **www.maps.org.uk/schools**

Gwasanaeth Arian a Phensiynau | Money & Pensions Service